


Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD CYNALIADWYEDD AC AMGYLCHEDDOL BLYNYDDOL 2024 / 2025

This document is also available in English

www.tancgc.gov.uk

Datgniad y Prif Swyddog Tân 1

## Adran 1

Ein Hymrwymiadau Amgylcheddol 2
Targedau Net Sero Llywodraeth Cymru 3
Safon Rheolaeth Amgylcheddol Y Ddraig Werdd 2016 4
Adolygiad Rheolaeth Amgylcheddol 4
Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn y Gwasanaeth 5

## Adran 2

Perfformiad Amgylcheddol – Ystadegau a Prosiectau 6
Mesur a Monitro: Data Amgylcheddol 18
Hyfforddiant Amgylcheddol a Rhwymedigaethau Cydymffurfio 18

## Adran 3

Trosolwg o'r Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd 5 Mlynedd - 2020/2025 18

## Adran 4

Amcanion Amgylcheddol a Chanlyniadau ar gyfer 2024/25 24
Amcanion Amgylcheddol – 2025/26 25

# Datganiad y Prif Swyddog Tân



**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwneud ymdrech barhaus i gael effaith gadarnhaol ar y dirwedd y mae'n gwasanaethu ynddi, ac maen nhw'n ystyried camau gweithredu tymor byr, tymor canolig a thymor hir i fynd i'r afael â materion hinsawdd a natur.**

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i sichrau nad yw gweithgareddau'r Gwasanaeth Tân yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd, ac mae materion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, adfer natur, disbyddiad adnoddau a llygredd o'r pwys mwyaf iddyn nhw.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi dwysáu ei ymrwymiadau corfforaethol i sero net, yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Gan gydnabod yr amserlen dynn ar gyfer cyflawni hyn, mae'r Gwasanaeth wedi datblygu Map Ffordd Lleihau Carbon i gyd-fynd ag amcanion amgylcheddol Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040 y Gwasanaeth, gyda'r nod o wella ymrwymiadau a thargedau lleihau yn barhaus o flwyddyn i flwyddyn.

Rwy'n credu bod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn Wasanaeth Tân ac Achub blaenllaw yng Nghymru ym maes materion amgylcheddol, a hoffwn ddiolch i holl weithwyr a rhanddeiliaid y Gwasanaeth am eu cefnogaeth barhaus a'u cyfraniad gwerthfawr i gyflawni ein nodau cynaliadwyedd amgylcheddol.



Craig Flannery

Y Prif Swyddog Tân



# Adran 1
# Introduction

Mae'r Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol yn rhoi amlinelliad o berfformiad a chyflawniadau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn ogystal â'i gynnydd tuag at amcanion amgylcheddol blwyddyn ariannol 2024/25, mewn meysydd sy'n cynnwys y fflyd, yr ystâd, bioamrywiaeth, gwastraff ac allyriadau cwmpas 1,2 a 3. Mae'r Adroddiad wedi'i gyhoeddi yn unol â gofynion Safon Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd (2016).

Mae GTACGC yn gwasanaethu bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan gynnwys 4,500 milltir sgwâr o dir gwledig yn bennaf. O'r herwydd, mae'r Gwasanaeth yn cydnabod pa mor bwysig yw'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y mae gweithgareddau'r Gwasanaeth yn eu cael ar yr amgylchedd, gan roi cydnabyddiaeth i allyriadau carbon o ganlyniad i redeg fflyd ac ystâd fawr a'r effaith uniongyrchol ar natur a'r hinsawdd. Mae rhai heriau allweddol yn wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub, a phob sefydliad sector cyhoeddus yng Nghymru, ar y llwybr tuag at gyflawni'r amcanion Map Ffordd Llywodraeth Cymru i gyrraedd sero net erbyn 2030. Mae'r heriau hyn yn cynnwys cyllid, cyfyngiadau o ran adnoddau, cymhlethdodau o ran seilwaith ac ystadau a newid ymddygiad.

Mae'r Gwasanaeth wedi amlinellu ei ymrwymiadau i leihau allyriadau yng Nghynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040. O fewn wyth ymrwymiad y Cynllun, mae Amcan 7 yn amlygu uchelgais amgylcheddol y Gwasanaeth i weithio mewn 'ffordd amgylcheddol gyfeillgar a chynaliadwy'. Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) llawn i'w weld yma.

Cyhoeddwyd Map Ffordd Lleihau Carbon y Gwasanaeth yn Haf 2024. Roedd yn amlinellu'r hyn y mae'r Gwasanaeth yn ymdrechu i'w wneud i gyrraedd targed Sero Net Llywodraeth Cymru erbyn 2030. Dyma brif feysydd y cynllun o ran ymdrechion i ddatgarboneiddio'r Gwasanaeth: trafnidiaeth a theithio cynaliadwy; rheoli adeiladau a chynnal a chadw tiroedd; y broses gaffael a'r gadwyn gyflenwi; gwastraff ac ailgylchu; a phrosesau gweithredol, hyfforddiant a newid ymddygiad.

Mae cynaliadwyedd yn ymwneud â gwella ansawdd bywyd mewn ffordd nad yw'n achosi difrod anadferadwy i'r amgylchedd nac yn atal cenedlaethau'r dyfodol rhag gallu elwa o'r pethau da rydym ni wedi arfer â nhw.

## Ymrwymiadau Corfforaethol a Chynaliadwyedd Amgylcheddol yn y Gwasanaeth

Mae'r amgylchedd wedi bod yn un o Ymrwymiadau Corfforaethol y Gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n parhau i gael ei ystyried yn faes pwysig i weithio tuag at ei wella, ym mhob agwedd ar weithgareddau'r Gwasanaeth. Mae angen ystyried addasu a lliniaru, mewn perthynas â Newid yn yr Hinsawdd, ym mhob un o weithgareddau a chynlluniau'r Gwasanaeth ac mae gwaith tuag at hyn wedi'i gynnwys yn yr amcanion yn CRMP y Gwasanaeth.

Yn ogystal â'r CRhRC, mae nifer o Gynlluniau eraill sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol, megis y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a'r Map Ffordd Lleihau Carbon.

Roedd y rhain yn cynnwys dull manwl o adrodd am allyriadau carbon sero net a fyddai'n cael ei gwblhau gan holl sefydliadau sector cyhoeddus Cymru, a hynny er mwyn darparu gwaelodlin i gyfeirio ati wrth symud ymlaen. Mae'r rhain yn cynnwys allyriadau sy'n deillio o adeiladu, gwastraff, y fflyd a'r gadwyn gyflenwi.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau bod ei weithgarwch yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar sefydliadau statudol i fynd ati i ystyried effaith eu gweithgareddau, ynghyd â'r modd y gallai'r gweithgareddau hynny effeithio ar drigolion y blaned yn y dyfodol. Mae'r Gwasanaeth yn adrodd yn flynyddol ar ei nodau a'i ymrwymiadau Strategol o fewn yr Asesiad Blynyddol o Amcanion Gwella a Llesiant y Gwasanaeth. Mae'r Adroddiad hwn yn nodi sut mae'r Gwasanaeth Tân wedi cyfrannu at y nodau Llesiant ar gyfer y flwyddyn flaenorol fel y nodir yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac Adroddiad Dyletswydd Adran

O dan **Ddyletswydd Adran 6** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae gan sefydliadau'r sector cyhoeddus ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu cadernid ecosystemau.

Fel un o ofynion y Ddyletswydd, cyhoeddodd y Gwasanaeth ei Adroddiad Dyletswydd Adran 6 cyntaf yn 2020 i gyd-fynd ag adroddiadau'r flwyddyn ariannol. Amlinellodd yr Adroddiad yr hyn y gall y Gwasanaeth ei wneud i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth ar dir y Gwasanaeth a thrwy weithgareddau'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Yng ngwanwyn 2023, cyhoeddwyd Adroddiad Monitro i amlygu cyflawniadau'r Gwasanaeth tuag at yr amcanion yn y Cynllun Gweithredu yn ogystal ag amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru.

Cyhoeddwyd ail adroddiad 3 blynedd y Gwasanaeth, Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2023 -2026, ochr yn ochr â'r adroddiad monitro yng Ngwanwyn 2023 sy'n amlygu ymrwymiadau'r Gwasanaeth i adfer byd natur a'r argyfwng hinsawdd.

## Targedau Sero Net Llywodraeth Cymru

Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer cyflawni allyriadau carbon niwtral yn y sector cyhoeddus yng Nghymru erbyn 2030. Roedd y rhain yn cynnwys dull manwl o adrodd am allyriadau carbon sero net a fyddai'n cael ei gwblhau gan holl sefydliadau sector cyhoeddus Cymru, a hynny er mwyn darparu llinell sylfaen i gyfeirio ati wrth symud ymlaen. Bydd y templed hwn ar gyfer adrodd yn cael ei ddefnyddio'n flynyddol i fonitro allyriadau, a bydd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod y data sy'n cael ei gasglu yn addas ar gyfer Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol y Gwasanaeth.

Mae'r term carbon sero net yn golygu sicrhau cydbwysedd rhwng y carbon sy'n cael ei ollwng i'r atmosffer a'r carbon sy'n cael ei dynnu ohono. Defnyddir Sero Net yn gyfnewidiol â'r term Carbon Niwtral. Ym mis Mawrth 2021, pennodd Llywodraeth Cymru dargedau newydd ar gyfer gostyngiad o 63% mewn allyriadau carbon erbyn 2030, gostyngiad o 89% erbyn 2040, a gostyngiad o 100% erbyn 2050. Hefyd, nododd Llywodraeth Cymru uchelgais gyfunol fwy heriol i'r sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni carbon sero net erbyn 2030 (uchelgais gyfunol 2030).

Fel sefydliad sector cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth adrodd yn flynyddol ar ei allyriadau carbon sero. Mae'r rhain yn cynnwys allyriadau sy'n deillio o adeiladu, gwastraff, y fflyd a'r gadwyn gyflenwi.

# Safon Rheolaeth Amgylcheddol Y Ddraig Werdd 2016

Er mwyn helpu i gyflawni ei ymrwymiadau amgylcheddol, mae'r Gwasanaeth yn gweithio tuag at Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd (2016). Mae'r Safon yn cynorthwyo ac yn ategu'r broses o wneud penderfyniadau ac yn sicrhau gwelliannau amgylcheddol parhaus o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r Safon yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn ymgorffori ac yn ystyried partïon â diddordeb yng nghyd-destun y sefydliad o ran pwysau mewnol, allanol a chymdeithasol.

Mae Safon Rheolaeth Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn rhwymedigaeth wirfoddol sy'n dyfarnu achrediad i Sefydliadau sy'n cymryd camau gweithredu i ddeall, monitro a rheoli eu heffeithiau ar yr amgylchedd. Ym mis Chwefror 2024, llwyddodd y Gwasanaeth i gynnal achrediad Lefel 5 am y 10fed flwyddyn yn olynol, sef archwiliad allanol 3 diwrnod o hyd a oedd yn adolygu cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, gweithdrefnau a dogfennau amgylcheddol yn ogystal ag ymweliadau safle â Gorsafoedd Tân a swyddfeydd.

Mae'r achrediad llwyddiannus yn dangos bod y Gwasanaeth wedi ymrwymo i reoli effaith ei weithgareddau ar yr amgylchedd ac yn dangos bod yr holl staff yn ymwybodol o'r effaith hon ac yn gweithio'n weithredol i'w lleihau. Mae'r Gwasanaeth yn deall ac yn gweithio o fewn y cyfrifoldebau amgylcheddol a amlinellir ac wedi ymrwymo i wella ei ôl troed amgylcheddol yn barhaus.

Mae'n rhoi sicrwydd wedi'i ddilysu'n allanol i randdeiliaid a phartïon â diddordeb bod arferion, prosesau a gweithdrefnau amgylcheddol y Gwasanaeth Tân ac Achub yn effeithiol ac yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Mae rhagor o wybodaeth am achrediad y Ddraig Werdd ar gael ar eu **gwefan.**




# Adolygiad Rheolaeth Amgylcheddol

Cynhelir adolygiad o System Rheolaeth Amgylcheddol (EMS) y Gwasanaeth yn flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas, yn ddigonol ac yn effeithiol. Yn ystod yr adolygiad, trafodir perfformiad mewn perthynas â'r nodau a'r targedau, ynghyd ag unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r system. Trafodir hefyd y materion canlynol:

- Camau gweithredu y mae angen rhoi sylw iddynt yn dilyn cyfarfodydd blaenorol.
- Adolygiad o berfformiad.
- Adroddiadau ar ddiffyg cydymffurfio ac adroddiadau ar ganlyniadau Archwiliadau.
- Adolygiad o'r cyflawniadau yn erbyn amcanion a thargedau cyfredol.

- Gosod amcanion a thargedau.
- Adolygiad o'r Polisi, gweithdrefnau a chanllawiau Amgylcheddol.
- Adolygiad o anghenion hyfforddiant amgylcheddol.
- Adolygiad o effeithiolrwydd y prosiectau amgylcheddol a gyflawnwyd gan y Gwasanaeth.

Mae'r adolygiad o'r broses reoli yn mynd i'r afael â'r angen posibl i newid y dogfennau amgylcheddol, ac yn sicrhau bod yna ymrwymiad a chynnydd parhaus o ran gwelliant amgylcheddol.

## Yr hierarchaeth gwastraff a chaffael cynaliadwy

Mae'n bwysig i'r Gwasanaeth osgoi anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi ac ailddefnyddio ac ailgylchu dodrefn a deunyddiau lle bo modd. Mae'r Gwasanaeth yn defnyddio contractwr allanol i gasglu hen ddodrefn, sy'n atgyweirio neu'n uwchgylchu os oes angen ac yn eu hailddosbarthu i ysgolion a chanolfannau cymunedol. Os na ellir ailddefnyddio'r dodrefn, caiff yr holl rannau eu hailgylchu. Bydd unrhyw brosiect yr ymgymerir ag ef o fewn y Gwasanaeth yn adfer ac yn addasu deunyddiau bob tro.

Mae gan y Gwasanaeth rwymedigaeth gyfreithiol i ystyried yr hierarchaeth gwastraff wrth drin gwastraff. Mae'r hierarchaeth yn nodi, yn ôl trefn blaenoriaeth, yr opsiynau i'w hystyried o ran rheoli gwastraff. Mae'n rhestru'r opsiynau o ran rheoli gwastraff yn ôl yr hyn sydd orau ar gyfer yr amgylchedd ac mae'n rhoi pwyslais ar atal gwastraff cyn ailddefnyddio ac ailgylchu a dim ond ar ôl ystyried yr opsiynau hyn y dylai gwastraff gael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi.

Mae'n bwysig i'r Gwasanaeth sicrhau bod goblygiadau oes gyfan pob eitem a brynir yn cael eu hystyried (o'r crud i'r bedd). Mae ystyriaethau amgylcheddol a chaffael cynaliadwy yn cael eu cadw mewn cof wrth nodi a phrynu'r holl nwyddau a gwasanaethau. Mae allyriadau Cwmpas 3 yn cael eu nodi, yn rhannol, yn yr Adroddiad hwn yn ogystal ag o fewn gofynion adrodd sero net blynyddol i Lywodraeth Cymru.

## Aspects and Impacts

Mae gan y Gwasanaeth nifer o elfennau ac effeithiau amgylcheddol yn ymwneud â gweithrediadau bob dydd. Er mwyn monitro'r rhain, datblygwyd cofrestr yn dilyn ystyriaethau o weithgareddau a gweithrediadau'r Gwasanaeth, gyda'r effeithiau mwyaf arwyddocaol yn cael eu hamlygu ac yn cael sylw.

Elfennau amgylcheddol yw'r elfennau o weithgareddau'r Gwasanaeth Tân ac Achub a allai effeithio ar yr amgylchedd.

Mae'r elfennau risg uchel yn cynnwys:

- Llygredd dŵr a draenio safleoedd.
- Y defnydd o ynni a chynhyrchu CO2.
- Cerbydau fflyd a theithiau busnes.
- Llygredd posibl wrth Ddiffodd Tanau

Mae'r meini prawf ar gyfer yr elfennau a'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol yn cael eu pennu gan y pethau canlynol:

- Asesu maint yr elfen a'r effaith.
- Penderfynu a yw'r elfennau'n cael eu rheoli gan unrhyw ddeddfwriaeth.
- Penderfynu a yw'r elfen yn fygythiad i'r enw da corfforaethol.
- Penderfynu a yw'r elfen yn effeithio ar allyriadau carbon y sefydliad.

Adolygir y Gofrestr yn flynyddol i sicrhau bod pob elfen yn dal i fod yn berthnasol ac i gynnwys unrhyw elfennau ac effeithiau arwyddocaol newydd os oes angen. Mae'r ddogfen hefyd wedi'i chynnwys yng nghylch gwaith gwiriad allanol blynyddol y Ddraig Werdd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

# Adran 2
# Perfformiad, Prosiectau a Monitro

## Perfformiad Amgylcheddol

Fel Gwasanaeth, mae nod i wella perfformiad amgylcheddol ac effaith yn barhaus o flwyddyn i flwyddyn yn unol ag ymrwymiadau'r Gwasanaeth a rhwymedigaethau'r System Rheolaeth Amgylcheddol. Mae monitro'n cael ei wneud ym meysydd allyriadau carbon o fflyd y Gwasanaeth, yr ystad, ynni adnewyddadwy, gwastraff ac adfer natur.

Mae'r Gwasanaeth yn cydweithio'n agos â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i wella cydweithrediad ac i annog ymarferiadau ar y cyd a rhannu gwybodaeth. Bydd hyn yn cryfhau'r galluoedd ymateb amgylcheddol.

Er mwyn gwella allyriadau cymudo a lleihau teithio diangen, mae'r Gwasanaeth wedi sefydlu polisi gweithio hyblyg ac yn annog y defnydd o gyfarfodydd hybrid a gweithio ystwyth. Mae monitro dogfennau a gweithgareddau'n rheolaidd yn helpu i graffu ar gynnydd mewn perfformiad a thuag at dargedau amgylcheddol yn fisol sy'n amlygu anghysondebau i'w hystyried.

## Allyriadau Ystâd a Chwmpas

Mae ystâd GTACGC yn cynnwys Gorsafoedd Tân, gweithdai, swyddfeydd a lleoliadau hyfforddi. Mae cynhyrchu a defnyddio ynni i redeg yr adeiladau hyn yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, o ganlyniad i'r defnydd o adnoddau ac allyriadau carbon. Mae darparwr trydan y Gwasanaeth yn cynhyrchu trydan o ystod o ffynonellau adnewyddadwy, gan gynnwys biomas, bioddiraddadwy, nwy tirlenwi, dŵr, gwynt morol, ffotofoltäig a gwynt.

Mae defnydd ystâd y Gwasanaeth o nwy a thrydan yn cael ei fonitro bob mis trwy Systemau Mesur Awtomatig (AMR) ym mhob safle. Mae'r cyfanswm a ddangosir yn Nhabl 1 isod yn cynnwys yr holl drydan a ddefnyddir, gan gynnwys trydan i wefru'r fflyd o gerbydau trydan ar safleoedd y Gwasanaeth.

Mae'r kW a ddefnyddir i wefru cerbydau trydan yn cael ei ddadansoddi yn Nhabl 7, o fewn Adran Fflyd Gwasanaeth yr Adroddiad. Yn ogystal â nwy a thrydan, mae gan y Gwasanaeth 1 Orsaf ar ôl sy'n defnyddio cerosin i wresogi, un lleoliad sydd â 2 danc sy'n defnyddio HVO i wresogi adeiladau, a phaneli solar ffotofoltäig mewn ychydig o leoliadau. Mae'r ffigurau hyn yn Nhabl 1.

**Tabl 1 - Defnydd Trydan, Nwy ac Olew**

| | 2020/21 (KWH) | 2021/22 (KWH) | 2022/23 (KWH) | 2023/24 (KWH) | 2024/25 (KWH) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trydan** | 2,819,053 | 2,159,216 | 2,121,824 | 2,077,102 | 2,129,625 |
| **Nwy** | 374,488 | 324,478 | 333,358 | 343,706 | 299,278 |
| **Olew (Litrau)** | 67,656 | 35,563 | 22,742 | 13,217 | 3,001 |
| **HVO (Litrau)** | Heb ar gael | Heb ar gael | Heb ar gael | 0 | 16,825 |
| **Paneli Solar (kW)** | 20,419 | 28,953 | 25,665 | Heb ar gael | Heb ar gael |

Mae Tabl 2 isod yn defnyddio ffactorau trosi DEFRA i gyfrifo ffigyrau CO$^2$e ar gyfer allyriadau Gwasanaeth.

**Tabl 2 - Ffactorau Trosi DEFRA**


| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nwy** | 0.23314 | 0.21233 | 0.19338 | 0.207074 | 0.20705 |
| **Trydan** | 0.18387 | 0.18316 | 0.18 | 0.18 | 0.18290 |
| **Olew** | 2.54039 | 2.54014 | 2.54 | 2.54 | 2.54015 |

Gellir yna defnyddio'r ffigurau allyriadau hyn i gymharu fel â fel ar gyfer pob tanwydd a rhoi adroddiad mewn modd safonol. Mae'r ffactorau trosi o DEFRA yn newid bob blwyddyn a all arwain at ffigurau CO$^2$e yn dangos cynnydd, er efallai bod y defnydd gwirioneddol wedi lleihau fel y nodir isod yn Nhabl 3.

**Tabl 3 - Tunelli CO$^2$e**

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nwy** | 657.2 | 458.4 | 410.3 | 430.1 | 440.9 |
| **Trydan** | 68.8 | 59.4 | 60.0 | 61.8 | 54.7 |
| **Olew** | 171.8 | 90.3 | 57.7 | 33.5 | 7.6 |

*Wedi'i ddangos yn tCO$^2$e



Mae'r defnydd o olew wedi lleihau'n sylweddol ers datgomisiynu nifer o'r tanciau olew gwresogi mewn Gorsafoedd Tân. Dim ond 3 tanc olew gwresogi sydd ar ôl, a hynny mewn 2 o leoliadau'r gwasanaeth.

Mae monitro Ynni wedi'i gynnwys fel rhan safonol o Archwiliadau Risg Corfforaethol Gorsafoedd, er mwyn ymdrechu i leihau'r defnydd ar lefel Gorsaf ac i amlygu mesurau syml ond effeithiol i fod yn fwy effeithlon ac i leihau'r defnydd ar gyfleustodau. Gallai hyn fod yn rhywbeth mor syml â symud dodrefn a blychau sydd o flaen rheiddiaduron neu gau drysau pan fydd y gwres ymlaen. Mae gwella ymwybyddiaeth staff yn allweddol os ydym am annog pobl i newid eu hagwedd tuag at arbed a rheoli ynni.

Un o ddulliau'r Gwasanaeth yw rhannu posteri defnydd ynni ledled y gwasanaeth er mwyn gwella ymwybyddiaeth pobl o ddefnydd ac allyriadau pob Rhanbarth.

Mae rhoi adroddiad o allyriadau sefydliad gan ddefnyddio cwmpas 1, 2 a 3 yn helpu i symleiddio ffigurau i fod yn haws i'w rheoli. Ar ôl i'r ffigurau gael eu casglu, gall y Gwasanaeth ddechrau nodi ym mha ardaloedd gall reoli ei effaith (Cwmpas 1 a 2) a pha feysydd y gall ddylanwadu arnyn nhw (Cwmpas 3).

| ALLYRIADAU UNIONGYRCHOL | ALLYRIADAU ANUNIONGYRCHOL YNNI | EMISIYNAU ANUNIONGYRCHOL ERAILL |
|---|---|---|
| **CWMPAS 1** | **CWMPAS 2** | **CWMPAS 3** |
| Allyriadau o weithgareddau sy'n defnyddio eiddo eich sefydliad neu rai y mae eich sefydliad yn eu rheoli. Gan gynnwys allyriadau o losgi tanwydd mewn boeleri, ffwrneisi a cherbydau. | Allyriadau sy'n gysylltiedig â phrynu a defnyddio trydan, gwres, stêm ac oerfel. O ganlyniad i ddefnyddio ynni, ond mae'n digwydd mewn ffynonellau nad ydych chi'n berchen arnynt nac yn eu rheoli. | Allyriadau o weithredoedd sy'n digwydd mewn ffynonellau nad ydych chi'n eu rheoli nac yn berchen arnyn nhw, ac sydd ddim cael eu cynnwys o fewn allyriadau Cwmpas 2. Megis teithio ar gyfer busnes, gwaredu gwastraff, deunyddiau neu danwydd y mae eich sefydliad yn eu prynu. |




**Tabl 4 - Cwmpas 1, 2 & 3**

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cwmpas 1** | 1107.8 | 1027.2 | 1,298.20 | 1,240.30 | 1,107.9 |
| **Cwmpas 2** | 657.2 | 458.4 | 410.3 | 430.1 | 449.6 |
| **Cwmpas 3** | 1,239.40 | 5,369.80 | 4,476.80 | 5,694.60 | 3,541.57 |

*Wedi'i ddangos yn $tCO^2e$

Nid yw'r ffigwr am Gwmpas 1, sy'n cael ei ddangos yn y tabl uchod, yn cynnwys yr allyriadau o nifer fach o gerbydau llog. Mae Cwmpas 2 yn cynnwys y defnydd trydanol o adeiladu a gosod rhwydwaith mewnol ar gyfer gwefru cerbydau trydan.

Mae allyriadau Cwmpas 3 fel arfer yn cyfateb i oddeutu 80% o allyriadau unrhyw sefydliad. Fel Gwasanaeth, dim ond am yr ychydig flynyddoedd diwethaf y mae'r rhain wedi'u monitro. Disgwylir i'r ffigwr gynyddu, oherwydd bod technegau monitro mwy datblygedig, trylwyr a chywir yn cael eu defnyddio.




# Fflyd y Gwasanaeth

Mae tua 350 o gerbydau o fewn fflyd y Gwasanaeth Tân, gan gynnwys geir cronfa, cerbydau arbenigol ar gyfer gyd-ymatebwyr ac injans tân. Maent yn defnyddio gwahanol fathau o danwydd, gan gynnwys trydan, diesel, petrol ac olew llysiau wedi'i drin â dŵr (HVO).

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod mai allyriadau'r fflyd yw un o'r allyrwyr carbon mwyaf. Mae'n bwysig i ni symud oddi wrth y defnydd o danwydd ffosil i redeg y fflyd o gerbydau os ydym am leihau allyriadau carbon uniongyrchol y Gwasanaeth a chyd-fynd â tharged Llywodraeth Cymru o gyrraedd sero net erbyn 2030. Mae hyn wedi'i nodi yng Nghynllun Rheoli Risg Cymunedol y Gwasanaeth a'r Map Ffordd Lleihau Carbon.

| MATH O GERBYD | NIFER YN Y GWASANAETH 2023/24 | NIFER YN Y GWASANAETH 2024/25 |
|---|---|---|
| **Cwbl drydanol** | 62 | 65 |
| **Hybrid** | 9 | 11 |
| **Diesel / Petrol** | 278 | 258 |




Er mwyn galluogi'r Gwasanaeth i ehangu ei fflyd o Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV), mae'r gwaith o osod pwyntiau gwefru trydan yn lleoliadau'r Gwasanaeth wedi parhau'n gyson dros y 3 blynedd diwethaf. Ar hyn o bryd mae 30 o leoliadau i gyd, gyda chyfanswm o 55 o bwyntiau gwefru ar draws ardal y Gwasanaeth, sy'n cynnwys cymysgedd o wefrwyr dwbl 7kW a gwefrwyr cyflym.

Mae'r tablau isod yn dangos ystadegau cerbydau ULEV yn ogystal â cherbydau sy'n defnyddio tanwydd ffosil. Mae Tabl 6 yn tynnu sylw at filltiroedd a deithiwyd gan gerbydau trydan a cherbydau tanwydd ffosil.


**Tabl 6 - Milltiredd Y Fflyd**

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cerbydau trydan** | 1,360,288 | 1,453,578 | 1,957,211 | 1,911,481 | 1,240,539 |
| **Cerbydau tanwydd ffosil** | 802 | 113,676 | 163,721 | 148,413 | 225,399 |

Mae Tabl 7 ac 8 isod yn tynnu sylw at y tanwydd a ddefnyddiwyd gan gerbydau'r Gwasanaeth a'u hallyriadau CO2e.  Nid yw Tabl 7 yn cynnwys ystadegau ar gyfer defnydd kW Cerbydau Trydan yn y 2 flynedd gyntaf.  Nid oedd monitro swyddfa gefn ar gael yn nyddiau cynnar y gwaith o osod gwefrwyr, ddim tan i'r defnydd o wefrwyr gael ei sefydlu'n llawn. Roedd y defnydd o drydan yn cael ei gofnodi fel rhan o ddefnydd yr adeilad cyfan.

**Tabl 7 - Defnydd Y Fflyd**

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Diesel (litrau)** | 340,622 | 349,300 | 461,159 | 456,204 | 416,146 |
| **HVO (litrau)** | N/A | N/A | N/A | 18,300 | 16,500 |
| **kW o Gerbydau Trydan** | N/A | N/A | 56,314 | 46,203 | 128,172 |




**Tabl 8 - Allyriadau Carbon**

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Diesel (litrau)** | 867.2 | 877.5 | 1,180.5 | 1,145.0 | 1,045.6 |
| **HVO (litrau)** | N/A | N/A | N/A | 0.65 | 0.58 |
| **kW o Gerbydau Trydan** | N/A | 8.82 | 11.77 | 11.57 | 15.41 |

*wedi'i ddangos mewn tunnellau o CO2 cyfwerth

Defnyddir ffactorau trosi DEFRA isod i gyfrifo allyriadau Gwasanaeth o danwydd i ffigurau cyfwerth CO². Gellir defnyddio'r ffigurau hyn wedyn i gymharu tebyg â thebyg ar bob tanwydd.

**Tabl 9 - Ffactorau Trosi Blynyddol DEFRA**

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Diesel (litrau)** | 2.54603 | 2.51233 | 2.56 | 2.51 | 2.51279 |
| **HVO (litrau)** | N/A | N/A | N/A | 0.03558 | 0.03558 |
| **kW o Gerbydau Trydan** | N/A | 0.07767 | 0.07192 | 0.07799 | 0.06837 |

Mae'r Gwasanaeth wedi gwrthbwyso 113,700kg o CO2 drwy ddefnyddio cerbydau trydan yn hytrach na cherbydau diesel yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Ni chafodd monitro'r trydan a ddefnyddir yn benodol i wefru'r fflyd o gerbydau trydan ar safle'r Gwasanaeth ei sefydlu tan 2022. Mae system swyddfa gefn wedi'i sefydlu i allu echdynnu'r wybodaeth hon i'w defnyddio i fonitro defnydd o gerbydau trydan. Mae hyn yn cael sylw yn Nhabl 7. Mae'r ffigur hwn wedi'i gynnwys yng nghyfanswm y trydan a ddefnyddir gan y Gwasanaeth. Er bod modd gwefru cerbydau trydan y Gwasanaeth y tu allan i leoliadau'r Gwasanaeth, nid yw hyn yn digwydd yn rheolaidd.

Roedd y defnydd o danwydd HVO yn lle diesel i redeg peiriannau'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar brawf am 12 mis ers Gwanwyn 2023. Cafwyd cyfnod o werthuso dros Haf 2024, a chyflwynwyd achos busnes ar ddull graddol o gyflwyno'r defnydd o HVO ymhellach ar draws y Gwasanaeth. Gall defnyddio hwn fel dewis arall yn lle diesel arbed amcangyfrif o 2 dunnell o CO2 fesul 1,000 litr o danwydd a ddefnyddir.



## Gwastraff ac ailgylchu

O fis Ebrill 2024, mae deddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus wahanu gwastraff ymhellach i gynnwys y ffrydiau gwastraff ychwanegol isod:

- Bwyd (dim ond os yw dros 5kg yr wythnos).
- Papur a chardiau.
- Gwydr.
- Metelau, plastigau a chartonau.
- Cyffredinol.


Mae gwastraff o Orsafoedd Tân yn cael ei gofnodi'n gywir gan gontractwyr gwastraff allanol ar adeg casglu, sy'n caniatáu i ystadegau manwl gael eu monitro'n fisol ar draws y Gwasanaeth. Mae'r contractwr gwastraff yn adfer 99% o wastraff y Gwasanaeth drwy ailgylchu, compostio ac adfer, sy'n gadael dim ond 1% ar ôl i'w anfon i safleoedd tirlenwi.

**Tabl 10 - Ffigurau Gwastraff**

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyffredinol** | 64,038 | 82,549 | 68,482 | 79,976 | 77,267 |
| **Ailgylchu Cymysg Sych (DMR)** | 31,032 | 47,060 | 52,076 | 44,917 | 35,775 |
| **Bwyd** | 26,257 | 31,078 | 35,967 | 31,864 | 39,415 |

*wedi'i ddangos yn Kgs

Ar y cyfan, y rheswm dros y cynnydd mewn gwastraff cyffredinol yw'r arfer o logi sgipiau mewn rhai Gorsafoedd i gawl gwared ar wastraff ychwanegol o brosiectau neu bryniannau graddfa fawr.



## Poteli plastig untro

Mae'r ffigurau cyfredol ar boteli plastig untro wedi gostwng 22% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac oddeutu 41% o gymharu â'r ffigur cychwynnol 2019/20.

Gellid esbonio hyn oherwydd bod 2020/21 yn ystod y cyfnod clo felly byddech yn disgwyl i'r ffigurau fod yn isel. Mae wedi amlygu, er bod newid mewn diwylliant i ddechrau, bod angen monitro archebion y Rhanbarthau ac Adrannau yn agosach ar lefel leol. Mae angen dosbarthu rhagor o wybodaeth am y cynnydd mewn ystadegau ac ymwybyddiaeth yn ogystal â chraffu ar yr archebion er mwyn gweld gostyngiad yn y ffigurau hyn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

**Tabl 11 - Ffigurau PPU**

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y poteli plastig untro a brynwyd y flwyddyn** | 30,312 | 34,776 | 46,104 | 51,240 | 40,896 |
| **Nifer y poteli amlddefnydd a ddosbarthwyd** | 1,408 | 175 | 114 | 221 | 246 |

Nid yw'r Gwasanaeth wedi dileu'r defnydd o botel dŵr plastig untro yn gyfan gwbl, gan fod angen defnyddio poteli dŵr at ddibenion lles mewn digwyddiadau, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio yn ystod hyfforddiant nac yn yr Orsaf. Y targed yw aros o dan 50% o'r flwyddyn waelodlin, sef 2019/20. Mae hyn bellach yn cael ei fonitro yng nghyfarfodydd y Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd a'r Grŵp Ymateb.

## Gwastraff o'r Gweithdai

Mae gwastraff o'r gweithdai yn cael ei gasglu a'i fonitro ar wahân i'r prif gontract gwastraff oherwydd y gall gynnwys eitemau mwy peryglus fel olew a batris cerbydau. Mae'r ffigurau ar gyfer y ffrwd wastraff hon o flwyddyn i flwyddyn i'w gweld isod.

**Tabl 12 - Gwastraff o'r Gweithdai**

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Metel Sgrap (Tunelli)** | 6.83 | 16.6 | 11.4 | 7.06 | 9.4 |
| **Gwastraff Amsugnol (Kg)** | 200 | 312 | 330 | 283 | 600 |
| **Hidlenni Olew (Kg)** | 384 | 576 | 480 | 384 | 288 |
| **Olew Injanau (Litrau)** | 2,041 | 1,701 | 2,120 | 1,362 | 5,015 |

Gellir egluro'r newidiadau mewn ffigurau dros y blynyddoedd gan nad yw'r amserlen gynnal a chadw yn cyd-fynd â blynyddoedd ariannol. Ni fydd gwastraff gweithdy yn cyd-fynd â'r ffigurau milltir neu ddefnydd tanwydd.

# Elusen y Diffoddwyr Tân

Mae Elusen Diffoddwyr Tân yn bodoli i ddarparu gofal a chefnogaeth gydol oes i deulu tân y DU. Maent yn darparu cymorth gydag iechyd meddwl a chorfforol, lles cymdeithasol ac yn darparu rhaglenni preswyl.

Un o'r ffyrdd y mae GTACGC yn cefnogi'r Elusen yw trwy gadw biniau dillad Elusen y Diffoddwyr Tân mewn 40 o Orsafoedd ar draws ardal y Gwasanaeth. Mae'r biniau hyn yn helpu i gefnogi Elusen y Diffoddwyr Tân trwy gasglu dillad gan y gymunedau. Mae hyn yn helpu i ddargyfeirio gwastraff tecstilau i ffwrdd o safleoedd tirlenwi, naill ai trwy eu hailwerthu, eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu.

Mae'r swm a roddwyd wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn sydd wedi helpu i gynhyrchu incwm i'r Elusen fel yr amlygir isod. Mae'r pris fesul Kg yn amrywio, a bydd hyn yn cael effaith ar yr incwm a gynhyrchir i'r elusen.

**Tabl 13 - Ffiguarau Elusen y Diffoddwyr Tan**

| | KG O DDILLAD | INCWM A GYNHYRCHWYD |
|---|---|---|
| **2024/25** | 212,669 | £27,307 |
| **2023/24** | 184,732 | £39,295 |
| **2022/23** | 164,810 | £35,097 |
| **2021/22** | 151,311 | £28,437 |
| **2020/21** | 125,038 | £14,945 |

# Prosiectau'r Gwasanaeth

## Adfer natur ar Orsafoedd

Dros y 18 mis diwethaf, mae'r Gwasanaeth wedi gwneud cais lwyddiannus am gyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar y cyd â Cadwch Gymru'n Daclus.

Defnyddiwyd y cyllid i greu gerddi o flodau gwyllt ar ardaloedd o laswellt nad oedd yn cael eu defnyddio mewn 5 Gorsaf Dân. Dylai hyn ddenu peillwyr a bywyd gwyllt i safleoedd, yn unol ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Gyda chymorth cydlynwyr Prosiect Cadwch Gymru'n Daclus, cwblhawyd gwaith ar erddi'r Orsaf Dân. Daeth grwpiau o blant o'r ysgolion lleol i roi help llaw i greu'r ardaloedd ar rai o'r prosiectau.





Mae lluniau o'r prosiectau gorffenedig yng Ngorsafoedd Tân Hwlffordd, Port Talbot a Glyn-nedd i'w gweld isod.





Roedd y cyllid hwn yn gam mawr tuag at annog bywyd gwyllt mewn Gorsafoedd Tân lle nad oedd dim o'r blaen. Mae'r tabl isod yn dangos y mannau gwyrdd cyfyngedig ar safleoedd y Gwasanaeth.

**Tabl 14 - Canrau y Mannaue Gwyrdd**

| | NIFER Y GORSAFOEDD |
|---|---|
| **5% neu lai o fannau gwyrdd** | 37 |
| **5-39%** | 16 |
| **40%** | 4 |

## #DawnsGlaw




Mae Ymgyrch Dawns Glaw yn dasglu amlasiantaeth o arbenigwyr o asiantaethau allweddol ledled Cymru sydd wedi ymrwymo i leihau, a lle bo modd, dileu effaith tanau glaswellt ledled Cymru. Er bod y pwyslais cychwynnol ar leihau achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a llosgi bwriadol, mae gwaith mwy diweddar wedi canolbwyntio ar gynorthwyo ffermwyr a thirfeddianwyr i sicrhau bod eu cynlluniau rheoli tir yn cael eu gweithredu'n ddiogel, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o ganlyniadau tanau damweiniol yng nghefn gwlad o ganlyniad i gynnydd mewn twristiaeth.



Mae'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol a'r Swyddog Cyswllt Ffermio o fewn GTACGC yn cynnig cymorth ac arweiniad, sy'n rhad ac am ddim, i ffermwyr, porwyr a thirfeddianwyr sy'n dymuno llosgi dan reolaeth fel rhan o'r gwaith rheoli tir. Gall y Swyddog Cyswllt gynorthwyo i greu 'cynllun llosgi' a thrafod technegau llosgi, rhwystrau tân neu gyflenwi llawer o danwydd.

## Bioamrywiaeth ac ymwybyddiaeth o SoDdGA ar Derfynellau Data Symudol

Mae oddeutu 1,000 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yng Nghymru, tua 12% o holl arwynebedd y wlad. Caiff y safleoedd eu dynodi oherwydd eu pwysigrwydd biolegol neu ddaearegol. Gall hyn ddigwydd oherwydd sawl gwahanol reswm, megis bod un ystlum pedol lleiaf yn clwydo yno, neu oherwydd bod cynefin benodol yno, e.e. rhostir neu ddolydd. Er mwyn sicrhau bod criwiau'n ymwybodol o'r ardaloedd sensitif hyn pan fyddan nhw'n ymateb i ddigwyddiad, mae'r safleoedd bellach wedi'u marcio'n glir ar Derfynellau Data Symudol (MDTs) yr holl beiriannau rheng flaen.

Mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Natur Leol Abertawe, mae haen ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth wedi cael ei datblygu ar gyfer ardal Abertawe, ac mae'n dangos nodweddion o ddiddordeb sylweddol pan fydd criwiau'n ymateb i ddigwyddiadau. Mae'r pwyntiau hyn yn cynnwys: lleoliadau planhigion prin, lleoliadau cynefinoedd gaeafgysgu gwiberod, Rhywogaethau Ymledol Anfrodorol mewn pyllau, a strwythurau lle mae ystlumod yn clwydo.




## Ardaloedd blodau gwyllt

Mae nifer o ardaloedd ar draws y Gwasanaeth lle mae'r tîm Cynnal a Chadw Tiroedd wedi manteisio ar y cyfle i annog peillwyr i safleoedd trwy blannu hadau blodau gwyllt mewn rhai mannau. Mae hyn yn helpu i greu llwybrau gwenyn rhwng gwahanol ardaloedd ac yn helpu i ddod â bioamrywiaeth i Orsafoedd. Cafodd oddeutu 200m2 o flodau gwyllt eu hau ar 3 o safleoedd mawr y Gwasanaeth rhwng diwedd Ebrill a dechrau mis Mai, gan godi'n arddangosfeydd lliwgar rhwng dechrau Awst a chanol mis Hydref.






## Mesur a monitro

Mae monitro gweithredol ar berfformiad data amgylcheddol yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir canfod gwelliannau a ffyrdd o arbed costau.

Mae nifer o ddulliau ar waith i fesur ac adrodd ar adnoddau a gweithgareddau'r Gwasanaeth, naill ai'n fisol neu'n chwarterol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- System Rheolaeth Amgylcheddol y Ddraig Werdd
- Cyfleustodau – Nwy, trydan, Olew gwresogi
- Rheoli Gwastraff – Cyffredinol, DMR a Bwyd
- Tanwydd i gynnal y fflyd – diesel a HVO
- Cadwyn Gyflenwi – Caffael
- Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040
- Map Ffordd Lleihau Carbon






## Hyfforddiant Amgylcheddol a Rhwymedigaethau Cydymffurfio

Mae GTACGC wedi creu pecyn e-ddysgu amgylcheddol pwrpasol ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub, a hynny er mwyn gwella ymwybyddiaeth pobl o feysydd, materion a gweithdrefnau a Chynlluniau amgylcheddol allweddol. Disgwylir i bob aelod o staff gwblhau'r pecyn dysgu a'i gofnodi ar eu cofnodion hyfforddi unigol.

Mae hyfforddiant penodol ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol yn cael ei roi i aelodau staff gweithredol sydd yn y cam cynefino ar ddechrau cyflogaeth, ond mae modiwlau hyfforddi pwrpasol wedi'u creu i wella ymwybyddiaeth a'r gallu i wneud penderfyniadau ynghylch diogelu'r amgylchedd yn ystod digwyddiadau gweithredol.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnal ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol trwy amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys posteri ymwybyddiaeth, cyfathrebu mewnol ar fewnrwyd y Gwasanaeth ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.

Mae'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol yn cael ei monitro trwy gofrestr gyfreithiol ar-lein, sy'n cynnwys holl weithgareddau a gweithrediadau'r Gwasanaeth ac yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio'n gyfreithiol. Mae hyn yn galluogi'r Gwasanaeth i nodi a chategoreiddio deddfwriaeth berthnasol yn hawdd ac yn effeithlon. Mae'r gofrestr yn cynnwys meysydd sy'n cynnwys sŵn, aer, dŵr, gwastraff, tir, bioamrywiaeth a hinsawdd.

# Adran 3

# Trosolwg o'r Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd 5 Mlynedd - 2020/2025

Yn 2020, cyhoeddodd y Gwasanaeth ei drydedd Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd 5 Mlynedd ar gyfer 2020/2025, ac mae'n amlinellu amcanion amgylcheddol hirdymor y Gwasanaeth.

Ers hynny, mae materion amgylcheddol wedi dod yn bwysicach yn genedlaethol ac yn lleol. Yn 2025, bydd y Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd 5 mlynedd yn cael ei disodli gan nifer o gynlluniau sy'n benodol i'r Gwasanaeth. Bydd y rhain yn cynnwys: Cynllun Gweithredu Adfer Natur, Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040 a Map Ffordd Lleihau Carbon 2030 sy'n tynnu sylw at y ffaith bod diogelu'r amgylchedd cyn bwysiced ag erioed i'r Gwasanaeth, a'n bod yn parhau i wella ein harferion gwaith a lleihau'r effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd. Mae themâu tebyg bellach yn cael eu cofnodi yn CRhRC 2040 y gwasanaeth. Mae Amcan 7 y CRhRC yn nodi: Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd ac yn gynaliadwy.

Roedd 6 Adran o fewn y Strategaeth 5 mlynedd yn cael sylw penodol dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae canlyniadau'r gwaith hwn i'w gweld dan yr is-deitlau isod.




## Cynaliadwyedd yn ein Cymuned

Mae'r Timau Lleihau Risgiau Cymunedol, Diogelwch Cymunedol a Diogelwch Tân Busnesau yn chwarae rhan enfawr wrth wella ymwybyddiaeth ac wrth ddiogelu'r gymuned o ran diogelwch tân yn y cartref, ymgysylltu ag ysgolion, diogelwch ar y ffyrdd, lleihau llosgi bwriadol a diogelwch tân busnesau.

Mae Tîm Ieuenctid y Gwasanaeth yn cyflwyno cyrsiau ymgysylltu ag ieuenctid strwythuredig gan weithio gyda phlant a phobl ifanc ar draws ardal Gwasanaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru. Maent yn gwneud hyn trwy addysgu yn bennaf, gan geisio atal y math o ymddygiad sy'n arwain at dannau'n datblygu yn y lle cyntaf, a thrwy ddwy raglen ymyrraeth: Prosiect Ffenics a'r Rhaglen Troseddau a Chanlyniadau. Mae'r ddau yn canolbwyntio ar weithio gyda phobl ifanc i fynd i'r afael â materion megis diffyg hunan-barch ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ogystal â phroblemau sy'n gysylltiedig â thân.

## Caffael Cynaliadwy

Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae cynaliadwyedd amgylcheddol wedi cael ei ymgorffori o fewn prosesau caffael y Gwasanaeth. Mae'r broses dendro bellach yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud ag ymgysylltu, allyriadau carbon ac annog busnesau bach a chanolig lleol i dendro.

Mae'r ffreutur ym Mhencadlys y Gwasanaeth yn defnyddio pecynnau bwyd a chwpanau tecawê bioddiraddadwy, ac mae holl argraffwyr yr Adran a'r Gorsafoedd yn defnyddio papur wedi'i ailgylchu, mae'r contract gwastraff Gwasanaeth yn sicrhau bod yr holl wastraff, lle bo'n bosibl, yn cael ei ailgylchu, a dim ond 1% o wastraff y Gwasanaeth sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

Fel rhan o waith adrodd a monitro Sero Net blynyddol Llywodraeth Cymru, mae gwariant y gadwyn gyflenwi yn cael ei ystyried mewn mwy o fanylder er mwyn ceisio nodi allyriadau carbon o gylch bywyd yr eitemau sy'n cael eu prynu. Mae allyriadau Cwmpas 3 fel arfer yn cyfateb i oddeutu 80% o allyriadau cyffredinol unrhyw sefydliad.



## Defnyddio a Rheoli Ynni

Bu newid mawr yn y defnydd o ynni dros y blynyddoedd diwethaf. Mae mwy o gerbydau trydan a llai o danciau olew gwresogi ar leoliadau'r Gwasanaeth wedi arwain at gynnydd yn y defnydd o drydan a nwy.

Mae mwy o dechnoleg Darllen Mesuryddion Awtomataidd (AMR) yn cael ei ddefnyddio ar draws ystâd y Gwasanaeth i helpu i fonitro'r defnydd o ynni, allyriadau carbon ac i nodi unrhyw broblemau yn gynnar. Mae'r Gwasanaeth wedi gosod nifer o baneli solar ffotofoltäig ar adeiladau mwy er mwyn cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar orsafoedd. Cafodd HVO ei dreialu mewn cerbydau a boeleri ochr yn ochr â cheisiadau cyllid ar gyfer gosod Systemau Rheoli Adeiladu (BMS) a phympiau gwres ffynhonnell aer, gyda'r bwriad o leihau allyriadau carbon o leoliadau'r Gwasanaeth.

**Amcan CAMPUS – Lleihau'r defnydd Trydan a Nwy y Gwasanaeth 5% (1% y flwyddyn) o gymharu â gwaelodlin 2019/20.**

O waelodlin 2019/20, mae'r defnydd o nwy wedi gostwng 19%. I raddau helaeth, gall y gostyngiad gael ei egluro gan y ffaith bod nifer o foeleri nwy wedi cael eu datgomisiynu yn 2023/24. Mae'r defnydd o drydan wedi gostwng 8% o gymharu â'r flwyddyn waelodlin 2019/20. Mae'r Gwasanaeth yn dal i edrych ar ddewisiadau adnewyddadwy i bweru'r ystâd, mae hyn yn parhau i fod yn faes pwysig o wella.

## Y Defnydd o Ddŵr

Mae'r gwasanaeth yn adnabyddus am ddefnyddio dŵr mewn digwyddiadau ac wrth hyfforddi, ac mae'n hollbwysig wrth ymateb i ddigwyddiadau penodol. Er mwyn ceisio lleddfu'r pwysau ar y seilwaith dŵr, mae'r Gwasanaeth yn ystyried dulliau amgen o ddefnyddio dŵr. Er mwyn monitro faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio mewn digwyddiadau, mae technoleg monitro dŵr wedi'i osod ar beiriannau tân. Mae hyn

yn caniatáu i ni gasglu ystadegau cywir ar y defnydd o ddŵr mewn digwyddiadau.

O ran ystâd y Gwasanaeth, mae technegau arbed dŵr yn cael eu defnyddio i leihau'r defnydd o ddŵr. Mae'r rhain yn cynnwys: tapiau effeithlon, toiledau â dau ddewis fflwsio, a chawodydd cyfaint isel.

## Gweithgareddau Gweithredol

Mae'r ffordd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb i ddigwyddiadau a'r mathau o alwadau y mae criwiau yn ymateb iddynt wedi newid dros y blynyddoedd. Mae disgwyliad i ni ymateb i danau mewn tai ac i ddamweiniau ar y ffordd wrth gwrs, ond mae disgwyliad bellach i ni ymateb i ystod ehangach o ddigwyddiadau hefyd, ac mae hynny wedi golygu bod y ffordd y mae'r Gwasanaeth yn gweithredu wedi gorfod esblygu.

Mae criwiau'n cael eu hyfforddi i asesu effaith amgylcheddol ym mhob digwyddiad gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, e.e. Bagiau Amgylcheddol, gronynnau amsugnol ac Unedau Amddiffyn yr Amgylchedd (EPUs).

Er mwyn cyfyngu ar unrhyw effaith amgylcheddol niweidiol o ganlyniad i weithgareddau'r Gwasanaeth, mae safleoedd allanol penodol wedi'u dewis i fod yn lleoliadau hyfforddi ewyn dynodedig. Mae padiau tân wedi'u byndio wedi'u gosod yn y lleoliadau hyn er mwyn dal yr ewyn, gan leihau effaith amgylcheddol yr ymarferion hyfforddi hanfodol hyn.

Mae gweithredu NERA (Asesiadau Risg Amgylcheddol Cenedlaethol) wedi'i ymgorffori yn y cynlluniau gweithredol i asesu a lliniaru risgiau amgylcheddol mewn digwyddiadau. Yn seiliedig ar hyn, mae tactegau gweithredol newydd yn caniatáu i ddeunyddiau penodol losgi o dan amodau rheoledig, gan leihau dŵr ffo halogedig o danau, yn seiliedig ar asesiadau risg amgylcheddol. Ymgysylltu â Safleoedd Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) lleol er mwyn dod i ddeall eu mesurau rheoli dŵr ffo dŵr ac ewyn ac i nodi cyfleoedd ar gyfer diogelu'r amgylchedd ar y cyd.

Mae offer Monitro Ansawdd Aer newydd mewn rhai Gorsafoedd yn galluogi i ansawdd aer gael ei fonitro mewn digwyddiadau mewn amser real, gan ddiogelu personél y Gwasanaeth a'r amgylchedd yn ehangach.

## Gwastraff ac Ailgylchu Cymysg

Yn 2020, dechreuodd y Gwasanaeth ddefnyddio un contractwr gwastraff yn hytrach na chael 6 Awdurdod Lleol yn casglu gwastraff. Roedd hyn yn ei gwneud yn haws i fonitro casgliadau ac fe wnaeth leihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn sylweddol.

Yn Ebrill 2024, cyflwynwyd rheoliadau gwastraff newydd yng Nghymru gan olygu bod yn rhaid i bob busnes sicrhau bod eu ffrydiau gwastraff yn cydymffurfio â rheoliadau llym pellach.

Amcan CAMPUS – Lleihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi o 3% o gymharu â'r waelodlin (2019/20) erbyn 2025

Gan ddefnyddio 2021/22 fel blwyddyn waelodlin newydd, sef pan allai contractwr gwastraff newydd y Gwasanaeth ddarparu blwyddyn lawn o ystadegau, mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau mai dim ond 1% o'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn.

Bu gostyngiad o 0.25% ar yr 1% o wastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yn 2024/25 o'i gymharu â 2021/22.

Mae'r contractwr gwastraff yn sicrhau bod pob cynhwysydd yn cael ei bwyso wrth iddynt gael eu codi, bod yr holl ddeunyddiau ailgylchadwy yn cael eu hanfon at brosesydd terfynol i'w ailgylchu, a bod gwastraff gweddilliol yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu ynni, gan sicrhau bod 100% yn cael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi. Mae gwastraff bwyd yn cael ei gasglu o orsafoedd a'i ailgylchu mewn cyfleuster treulio anaerobig.

Amcan CAMPUS – Gweithio tuag at darged o leihau'r defnydd diangen o blastigau untro ledled ardal y Gwasanaeth. Gostyngiad o 40% ar bryniannau plastig o gymharu â gwaelodlin 2019/20.

Yn gynnar yn 2020, gweithredodd y Gwasanaeth raglen i leihau nifer y poteli dŵr plastig untro ar draws y Gwasanaeth. Rhoddwyd poteli dŵr personol y gellir eu hailddefnyddio i bob aelod o staff, ar yr ochr weithredol a staff cymorth, i'w hannog i ddefnyddio llai o boteli plastig untro.

Roedd gostyngiad o 57% yn y flwyddyn ar ôl cyflwyno yn 2020. Cafodd y cyfnod clo effaith sylweddol ar hyn. Mae'r ffigurau wedi amrywio ychydig yn y blynyddoedd canlynol, ond cyflawnwyd y targed ac mae gostyngiad o 41% wedi bod o gymharu â gwaelodlin 2019/20. Er bod y targed hwn wedi'i gyflawni, mae gwelliant pellach a lleihad pellach yn y defnydd diangen o blastig mewn meysydd fel prynu a danfoniadau yn parhau i fod yn faes pwysig o welliant parhaus ar draws y Gwasanaeth.

## Trafnidiaeth a Rheoli'r Fflyd

Mae gan y Gwasanaeth fflyd o 350 o gerbydau, gan gynnwys cerbydau cronfa, ymateb a chymorth. Ers 2020, mae'r Gwasanaeth wedi bod yn prynu cerbydau trydan i gymryd lle cerbydau cronfa sydd ar ddiwedd eu hoes, ac mae hynny wedi cael effaith enfawr ar allyriadau carbon. Mae gosod pwyntiau gwefru trydan ar leoliadau Gwasanaeth wedi helpu i redeg y cerbydau trydan.

Yn 2024, cynhaliwyd treialon HVO ar 3 o leoliadau'r Gwasanaeth, gyda'r gobaith o ddefnyddio llai o danwydd ac o leihau allyriadau carbon fflyd ochr weithredol y Gwasanaeth. Fe wnaeth y treialon bara 6 mis, ac yn dilyn gwerthusiad penderfynwyd ei gyflwyno i fwy o leoliadau'r Gwasanaeth.  Pa mor gost-effeithiol yw cyflwyno HVO i sawl safle, ynghyd ag ystyriaethau amgylcheddol wrth ddewis lleoliad y tanciau.

Cynhaliwyd a chofnodwyd gwiriadau safle ychwanegol i sicrhau bod y tanciau tanwydd yn ddiogel. Mae'r tanciau yn cael eu gwirio a'u cyflwr yn cael ei fonitro'n flynyddol, ac mae'r ffrâm a'r hambyrddau diferion yn cael eu glanhau a'r pwmp yn cael gwasanaeth.

Datblygwyd gwaith monitro a phrosesau gwell trwy'r system swyddfa gefn i ddarparu ystadegau ac adroddiadau mwy cywir.

Mae'r Gwasanaeth wedi trosglwyddo'r mwyafrif o geir Ymateb sydd ar brydles i fod naill ai yn gerbydau trydan neu'n rhai ULEV, gyda'r bwriad o drosglwyddo'n llawn yn y 2 flynedd nesaf.



# Datgarboneiddio

Yn 2024, cyhoeddodd y Gwasanaeth ei Fap Ffordd Lleihau Carbon cyntaf, ac mae'n amlinellu taith y Gwasanaeth i ddod yn sero net erbyn 2030, yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru ar gyfer holl sefydliadau'r sector cyhoeddus. Mae'r Cynllun ar gael ar wefan allanol y Gwasanaeth ac mae'r amcanion yn y ddogfen yn cael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau cynnydd parhaus tuag at eu cyflawni.

Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau bod yr holl drydan a brynir ar gyfer yr ystâd yn dod o ffynhonnell sy'n 100% adnewyddadwy, gan gynnwys ynni solar, dŵr a gwynt. Mae datgarboneiddio'r Ystâd yn gam pwysig iawn tuag at sicrhau ein bod yn gweithio tuag at y targed o sero net erbyn 2030.

# Bioamrywiaeth a Bywyd Gwyllt

Yn 2023, cyhoeddodd y Gwasanaeth ei ail gynllun i weithio tuag at Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2023–26 yn amlinellu amcanion i'r Gwasanaeth eu cyflawni er mwyn annog a gwella bioamrywiaeth ar leoliadau'r Gwasanaeth.

Mewn mannau gwyrdd addas ar y gorsafoedd mwy, mae nifer o ardaloedd o flodau gwyllt wedi'u hau a'u datblygu i ddenu peillwyr i'r safle.

Gwnaed camau tuag at ddenu bywyd gwyllt i Orsafoedd trwy gydol 2024, pan lwyddodd nifer o Orsafoedd i wneud ceisiadau llwyddiannus am gyllid i ddatblygu gerddi bywyd gwyllt ar eu Gorsafoedd. Galluogwyd hyn gan gyllid gan Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a chymorth cydlynwyr Prosiect o Cadwch Gymru'n Daclus. Cafodd nifer o'r Gorsafoedd gymorth gan ysgolion lleol neu grwpiau cymunedol hefyd wrth ddatblygu'r gerddi, ac wrth barhau i gynnal yr ardaloedd gerddi newydd yn y blynyddoedd i ddod.








# Adran 4
# Amcanion Amgylcheddol a chanlyniadau ar gyfer y flwyddyn 2024/25

| | AMCAN | CANLYNIAD |
|---|---|---|
| **AA1** | Cynyddu'r defnydd o gerbydau trydan y gwasanaeth, gwerthuso a datblygu diwylliant o rannu ceir a theithio cynaliadwy. | Mae'r defnodd o gerbydau trydan a hybrid wedi cynyddu 6.8% yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.<br><br>Anfonwyd Arolwg Teithio Staff i gasglu barn yr holl staff ar y defnydd o gerbydau trydan i'w gylchredeg ym mis Mawrth 2025 |
| **AA2** | Craffu ar archebu a defnyddio poteli Plastig Untro o fewn Adrannau Ymateb a Hyfforddiant, fel bod ffigurau'n gostwng 10% o gymharu â gwaelodlin 2023/24. | Mae'r defnydd o boteli plastig untro wedi gostwng 41% o gymharu â'r flwyddyn waelodlin pan gyflwynwyd y cynllun, sef 2019/20, ac 20% o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. |
| **AA3** | Annog Gorsafoedd i weithio tuag at amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a'u hymgorffori yn yr Adroddiad Monitro ar gynnydd. | Mae gwelliant mawr wedi bod o ran ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ar yr Orsaf ac i annog gwelliannau ac ymwybyddiaeth o brosiectau bioamrywiaeth ar dir y Gwasanaeth.<br><br>Mae 5 Gorsaf wedi datblygu gerddi bywyd gwyllt neu erddi ffrwythau ar Orsafoedd yn 2024/25.<br><br>Enillodd prosiect datblygu gardd les yng Ngorsaf Hwlffordd wobr Mwy Na Dim Ond Tanau yn 2025. |
| **AA4** | Codi ymwybyddiaeth o'r Map Ffordd Lleihau Carbon ac annog cyfrifoldeb gan Orsafoedd am allyriadau carbon. | Cyhoeddwyd Map Ffordd Lleihau Carbon 2030 yn Hydref 2024, ac mae'n cynnwys amcanion tymor byr, canolig a hirdymor.<br><br>Mae hyn yn cael ei fonitro yng nghyfarfod y Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd ac mae hefyd yn Amcan o fewn CRhRC 2040 y Gwasanaeth. |

# Amcanion Amgylcheddol ar gyfer y flwyddyn i ddod - 2025/26

**AMCAN 1**
Datblygu a gwella bioamrywiaeth ar unrhyw fannau gwyrdd ar dir Gwasanaeth drwy gynyddu nifer yr ardaloedd bywyd gwyllt datblygiedig.

**AMCAN 2**
Lleihau faint o wastraff cyffredinol a gynhyrchir gan leoliadau'r Gwasanaeth, gan ganolbwyntio ar newid ymddygiad.

**AMCAN 3**
Gwell adroddiadau dadansoddi tanwydd a milltiroedd. Ceisio lleihau'r defnydd o danwydd diesel mewn cerbydau ymateb ysgafn o leiaf 5% o gymharu â ffigurau 2023/24.

Gellir darganfod mwy o wrthrychau amgylcheddol o dan Amcan 7 o GRhRC 2040 a'r Map Ffordd Lleihau Carbon 2030. Mae'r dogfennau yma i gyd wedi cael eu datblygu i gefnogi ac i atgyfnerthu eu gilydd a gellir eu darganfod ar wefan y Gwasanaeth.

JR2066

# A SUSTAINABILITY AND ENVIRONMENTAL ANNUAL REPORT

# 2024 / 2025

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru


Mid and West Wales Fire and Rescue Service

HOFFI DILYN RHANNU

LIKE FOLLOW SHARE

**Ein Negeseuon Diogelwch**

Our Safety Messages




Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg

www.mawwfrs.gov.uk